

Ymgynghoriad ar y rheolau ffioedd 2015 drafft

Chwefror 2015

Cynnwys

1	Trosolwg	4
2	Y broses ymgynghori	6
3	Cefndir	7
4	Ein hymagwedd tuag at ffioedd	8
5	Sut caiff y ffioedd eu gwario	9
6	Sut ydym yn pennu ein ffioedd arfaethedig	11
7	Newidiadau i gategorïau ffioedd ar gyfer ceisiadau ac anodiadau	13
8	Ein ffioedd arfaethedig yn llawn	15
9	Sut mae ein ffioedd adnewyddu arfaethedig yn cymharu gyda rhai rheoleiddwyr eraill	22
10	Cwestiynau'r ymgynghoriad	23
	Atodiad 1: rheolau ffioedd drafft	24
	Atodiad 2: Ein polisi ffioedd	42
	Sut i ymateb	43
	Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	44
	Monitro cydraddoldeb	49

Y dyddiad terfyn ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw **Dydd Gwener 15 Mai 2015**.

Gallwch ymateb ar-lein yn www.pharmacyregulation.org/fees2015

Gellir atgynhyrchu'r testun (ond nid y logo a'r brandio) sydd yn y ddogfen hon am ddim ac mewn unrhyw fformat, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2015

1. Trosolwg

Mae'r CFFC yn ymgynghori hyd **Ddydd Gwener 15 Mai 2015** ar newidiadau yr ydym yn eu cynnig i'n ffioedd. Mae'r cynigion hyn yn cwmpasu'n bennaf y ffioedd adnewyddu a delir gan fferyllwyr, technegwyr fferyllol a pherchnogion fferyllfeydd. Byddant hefyd yn effeithio ar ffioedd eraill a delir gan niferoedd llai o bobl, megis y rhai sy'n gwneud cais am y tro cyntaf am gofrestrriad.

Ein diben statudol yw diogelu cleifion drwy osod a chynnal safonau ym maes fferylliaeth. Mae rheoleiddio effeithiol o fudd nid yn unig i gleifion a'r cyhoedd, ond hefyd i gofrestrredigion. Mae bod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig, neu'n darparu gwasanaethau o fferyllfa gofrestrredig, yn golygu y bydd gan gleifion hyder yn y gweithiwr fferyllol proffesiynol hwnnw. Mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i'r fferyllfeydd y darperir gwasanaethau fferyllol ohonynt fodloni safonau penodol.

Yn gryno:

- rydym yn cynnig cynyddu'r ffi adnewyddu flynyddol ar gyfer fferyllwyr gan £10, o £240 i £250. Mae hyn yn gynnydd o 4.17 y cant ar y swm presennol, er bod y ffi a gynigir yn dal yn is na'r ffi cofrestru yn 2011, sef £267
- rydym yn cynnig cynyddu'r ffi adnewyddu flynyddol ar gyfer technegwyr fferyllol gan £10, o £108 i £118. Mae hyn yn gynnydd o 9.26 y cant ar y swm presennol, er bod y ffi a gynigir yn dal yn is na'r ffi cofrestru yn 2011, sef £120
- rydym yn cynnig cynyddu'r ffi adnewyddu flynyddol ar gyfer eiddo fferyllol gan £20, o £221 i £241. Mae hyn yn gynnydd o 9.05 y cant ar y swm presennol
- rydym yn cynnig cynyddu ffioedd eraill gan wahanol symiau, ar gyfraddau sydd ychydig yn uwch na chwyddiant, er mwyn adlewyrchu'n well gost rheoleiddio

Rhaid i'n hincwm o ffioedd sicrhau y gallwn barhau i weithio'n effeithiol fel rheoleiddiwr yn y tymor hir. Rydym hefyd yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'n dyletswydd i barhau i herio ein costau er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. O ganlyniad, gan hyd yn oed roi ystyriaeth i'r cynnydd bychan, byddai'r ffioedd newydd ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, os cânt eu cytuno, yn is na'r rheini a godwyd ym mis Mawrth 2011.

Ers hynny, rydym wedi cadw cynnydd mewn ffioedd yn is na lefelau chwyddiant a thwf cyflog. Mae hyn o ganlyniad i gynllunio ariannol cadarn, rheolaeth effeithiol, ac enillion sylweddol mewn effeithlonrwydd drwy fuddsoddiadau yr ydym wedi eu gwneud yn ein swyddogaethau statudol a'n systemau cefnogi. Mae'r tabl isod yn dangos y ffioedd yr ydym wedi eu codi ers mis Mawrth 2011 a sut yr ydym wedi llwyddo i gadw'r lefelau'n isel ac osgoi amrywiadau mawr.

	Mawrth 11	Mawrth 12	Mawrth 13	Mawrth 14	Mawrth 15	Mawrth 16
Ffioedd	£	£	£	£	£	£
Fferyllwyr	262	267	240	240	240	250
Technegwyr fferyllol	142	120	108	108	108	118
Eiddo	217	221	221	221	221	241

Yn 2012 fe wnaethom ymgynghori ar ostwng ein ffioedd, ac ers mis Mawrth 2013 nid yw'r ffioedd wedi newid. Ers hynny rydym wedi gwario arian o'n cronfeydd wrth gefn er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni ein cynllun strategol uchelgeisiol. Y llynedd cymeradwyodd y cyngor gyllideb ddiffygiol (hynny yw, gwario mwy yn y flwyddyn arbennig honno na'r incwm a ragamcanwyd ar ei chyfer) oherwydd bod ein cronfeydd wrth gefn yn ddigon mawr ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, a gallem barhau'r rhewi ar ffioedd am flwyddyn arall.

Erbyn hyn rydym wedi ein sefydlu ers ychydig dros bedair blynedd ac wedi gwneud cynnydd sylweddol fel y rheoleiddiwr fferylliaeth. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu galwadau cynyddol ar rôl fferylliaeth ac felly hefyd ddyletsyddau'r rheoleiddiwr fferylliaeth. Yn ogystal, am y tro cyntaf bydd yn rhaid i'r CFfC a rheoleiddwyr gweithwyr iechyd proffesiynol eraill dalu ardoll i ariannu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol. Corff yw hwn sy'n goruchwyllo'r holl reoleiddwyr gweithwyr iechyd proffesiynol yn y DU. Hyd yma, mae'r arian yma wedi dod gan y llywodraeth.

Rydym wedi datblygu'r cynigion ar gyfer cyllideb a phennu ffioedd 2015/16 gan roi ystyriaeth i'r pwyntiau allweddol canlynol:

- parhau i gyflawni ein dyletswydd statudol graidd o ddiogelu'r cyhoedd, ac yn arbennig pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllfeydd a gweithwyr fferyllol proffesiynol
- rhagamcaniadau cost ein cynllun corfforaethol blynyddol ar gyfer 2015/16
- yr adnoddau sydd eu hangen arnom i allu cyflawni ein strategaeth dreigl tair blynedd o 2015 hyd 2018
- yr egwyddor ein bod eisiau gwneud yn siŵr bod dyraniad teg a chymesur o ffioedd i grwpiau cofrestredigion, gan roi ystyriaeth i gostau rheoleiddio
- ein nod o osgoi amrywiadau sylweddol mewn lefelau ffioedd yn y blynyddoedd i ddod ar gyfer rhai, neu'r cyfan, o grwpiau cofrestredigion
- ein hymrwymiad i wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd ar draws holl feysydd y CFfC

Er mwyn gwneud yn siŵr y gallwn barhau i dalu costau cynyddol rheoleiddio fferylliaeth effeithiol, byddai'r ffioedd newydd yr ydym yn eu cynnig yn dod i rym o fis Hydref 2015.

Gellir gweld testun llawn y rheolau ffioedd arfaethedig, sy'n cynnwys y newidiadau arfaethedig i gategoriâu ffioedd a'r ffioedd arfaethedig eu hunain, yn atodiad 1. Er mwyn cyfeirio'n hawdd, mae'r ffioedd arfaethedig hefyd wedi eu nodi mewn tabl yn adran 8.

2. Y broses ymgynghori

Mae'r cyngor wedi rhoi sylw gofalus i ystod o wybodaeth a thystiolaeth wrth ystyried yr ymgynghoriad hwn ar reolau ffioedd drafft. Fodd bynnag, rydym eisiau profi ein syniadaeth ac mae'r cyngor eisiau gwneud y penderfyniadau gorau posibl ynglŷn â ffioedd pan fydd yn cyfarfod ar 11 Mehefin 2015. Rydym angen cymorth gan bawb sydd â gwybodaeth a barn. Mae hyn er mwyn i ni allu profi ein hymagwedd gyffredinol tuag at bennu ffioedd, yn ogystal â'r cynigion penodol ac effaith neu fanteision posibl unrhyw lefelau ffi penodol. A fydddech cystal â dweud wrthym beth yw eich barn am unrhyw gynigion, neu'r holl gynigion, a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am 12 wythnos a bydd yn cau ar Ddydd Gwener 15 Mai 2015. Yn ystod y cyfnod hwn byddem yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon at ystod o sefydliadau rhanddeiliaid, yn cynnwys cyrff cynrychioliadol proffesiynol a chyflogwyr, yn ogystal â chleifion a'u cyrff cynrychioliadol. Gobeithiwn y byddant yn rhoi sylw i'r ymgynghoriad hwn ac yn ystyried ymateb.

Gallwch lawrlwytho mwy o gopiau o'r ddogfen hon o'n gwefan neu gallwch ofyn i ni am gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith arall).

Gallwch weld sut i ymateb i'r ymgynghoriad yn yr adran *Sut i ymateb*.

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych unrhyw bryderon neu sylwadau ynglŷn â'r broses ymgynghori ei hun, gallwch ddweud wrthym:

- drwy anfon e-bost atom yn feedback@pharmacyregulation.org
- drwy ysgrifennu atom yn:

Draft 2015 fees rules consultation process
Governance team
General Pharmaceutical Council
25 Canada Square
London
E14 5LQ

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad ei hun i'r cyfeiriadau hyn.

Adroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion yr ydym yn eu derbyn ac yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac eglurhad o'r penderfyniadau y mae'r cyngor yn eu gwneud. Gallwch weld y rhain ar ein gwefan www.pharmacyregulation.org

Bydd y cyngor yn ystyried gwneud y rheolau ffioedd 2015 yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2015 a bydd y rheolau yn dod i rym ar 15 Hydref 2015.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2012/3171/made>

3. Cefndir

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFFC) yw'r rheoleiddiwr at gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig ym Mhrydain Fawr. Ein gwaith yw to diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau o'r cyhoedd ac yn arbennig yr aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n defnyddio neu sydd angen gwasanaethau gweithwyr fferyllol proffesiynol neu wasanaethau a ddarperir mewn fferyllfa gofrestrdig.

Rydym yn rheoleiddio fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol cofrestredig yn y gymuned ac mewn ysbytai. Rydym hefyd yn rheoleiddio ymarfer o fewn academia, ymchwil, iechyd y cyhoedd, comisiynu, rheolaeth, diwydiant, a lleoliadau eraill lle mae'r cyhoedd yn dibynnu'n anuniongyrchol, ond dim yn llai sylweddol, ar broffesiynoldeb a chymhwysedd gweithwyr fferyllol proffesiynol mewn ystod eang o rolau anghlinigol. Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig. Mae'r rhain yn disgrifio beth ddylai cleifion ei ddisgwyl pan fyddant yn derbyn gofal mewn neu gan fferyllfeydd cofrestredig.

Mae ein prif swyddogaethau'n cynnwys:

- cadw cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol ac eiddo fferyllol
- gosod safonau ar gyfer ymddygiad, moesegau a pherfformiad, hyfedredd, addysg a hyfforddiant, a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- gosod a hyrwyddo safonau ar gyfer ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol mewn fferyllfeydd cofrestredig
- sefydlu gofynion cymhwyster i ymarfer a monitro cymhwyster gweithwyr fferyllol proffesiynol i ymarfer, a
- delio'n deg a chymesur â chwynion a phryderon

Ein nod yw gwneud yn siŵr bod rheoleiddiad yn deg a chymesur - gan roi ystyriaeth i'r risg a berir i iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd - ac nid yn rhy feichus. Rydym eisiau iddo fod yn ddigon hyblyg i ymateb i'r galwadau newidiol a wneir ar y proffesiwn gan lywodraethau ar ran y cyhoedd, ac i ganiatáu ar gyfer arloesedd, tra ar yr un pryd gynnal ymarfer o ansawdd uchel.

Mae'r prif bwyntiau yn yr amserlen ar gyfer adnewyddu cofrestriad yn cael eu gwneud ar ein cyfer gan reolau a wneir o dan y Gorchymyn Fferylliaeth 2010. Dywed rheolau cofrestru'r CFFC bod yn rhaid i ni anfon hysbysiadau adnewyddu i gofrestrdigion a pherchnogion fferyllfeydd o leiaf dri mis cyn y bydd eu cofrestriad yn dirwyn i ben. Hefyd, rhaid i ni dderbyn ceisiadau ar gyfer adnewyddu (yn cynnwys y ffi berthnasol a'r datganiadau gofynnol) o leiaf ddau fis cyn y dyddiad dirwyn i ben.

Caiff yr amserlen hon effaith fawr ar farn y cyngor. Wrth wneud penderfyniadau nawr, ym mis Chwefror 2015, ynglŷn â lefelau ffioedd i ymgynghori arnynt, bu'n rhaid i'r cyngor gadw mewn cof yr holl bethau a allai ddigwydd neu newid a fyddai o bosibl yn effeithio ar incwm a gwariant y CFFC yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y ffioedd hyn.

Gellir gweld testun llawn y rheolau ffioedd arfaethedig, sy'n cynnwys y newidiadau arfaethedig i gategoriâu ffioedd a'r ffioedd arfaethedig eu hunain, yn atodiad 1. Er mwyn cyfeirio'n hawdd, mae'r ffioedd arfaethedig hefyd wedi eu nodi mewn tabl yn adran 8.

4. Ein hymagwedd tuag at ffioedd

Fel yr eglurwn yn ein polisi ffioedd (gweler atodiad 2), mae ein hymagwedd tuag at bennu ffioedd yn ystyried nifer o wahanol bethau. Ar gyfer y ffioedd yr ydym yn eu cynnig nawr, mae hyn yn cynnwys:

- parhau i gyflawni ein dyletswydd statudol graidd o ddiogelu'r cyhoedd, ac yn arbennig pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllfeydd a gweithwyr fferyllol proffesiynol
- rhagamcaniadau cost ein cynllun corfforaethol blynyddol ar gyfer 2015/16
- yr adnoddau sydd eu hangen arnom i allu cyflawni ein strategaeth dreigl tair blynedd o 2015 hyd 2018
- yr egwyddor ein bod eisiau gwneud yn siŵr bod dyraniad teg a chymesur o ffioedd i grwpiau cofrestredigion, gan roi ystyriaeth i gostau rheoleiddio
- ein nod o osgoi amrywiadau sylweddol mewn lefelau ffioedd yn y blynyddoedd i ddod ar gyfer rhai, neu'r cyfan, o grwpiau cofrestredigion
- ein hymrwymiad i wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd ar draws holl feysydd y CFfC

Wrth bennu ein ffioedd maes dau brif beth gennym i'w hystyried. Yn gyntaf, mae faint o arian sydd ei angen arnom i gynnal ein swyddogaethau statudol yn y modd mwyaf effeithiol posibl. Yn ail, sut i ddyrannu'r ffioedd rhwng gwahanol grwpiau cofrestredigion yn y modd mwyaf priodol a theg. Mae'r cyngor yn awyddus i weld bod y ffioedd yr ydym yn eu pennu ar gyfer pob grŵp cofrestrai yn adlewyrchu cost rheoleiddio'r grŵp hwnnw.

Gan ystyried hyn, rydym wedi cynnal 'adolygiad ffioedd a chostau'. Nod hyn oedd gwneud yn siŵr bod ein ffioedd yn adlewyrchu, cyn belled â phosibl, gostau rheoleiddio grwpiau cofrestredigion ac adeiladu unigol. O gofio cymhlethdod y materion, hyn nid oes fformiwla 'berffaith' ar gyfer gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod y data a'r dull yr ydym wedi ei ddefnyddio i lunio'r argymhellion hyn yn gadarn.

Wrth geisio dyrannu costau yn y modd hwn, mae angen i ni gael dealltwriaeth ddefn a manwl o ba weithgareddau yr ydym yn eu cyflawni a pham. Ein nod yw gwella'n barhaus ein dealltwriaeth o hyn.

5. Sut caiff y ffioedd eu gwario

Mae'n bwysig ein bod yn dryloiw ynglŷn â sut yr ydym wedi defnyddio'r incwm a gynhyrchwyd o'n ffioedd, ac ynglŷn â'r gweithgareddau yr ydym yn eu cynllunio yn y dyfodol er mwyn cyflawni ein diben statudol o ddiogelu'r cyhoedd.

Gwarir ein holl incwm ar gyflawni, neu gefnogi'n uniongyrchol, ein prif swyddogaethau, a eglurir yn adran tri. Bydd sut y caiff ei wario, a sut y caiff ei ddyrannu rhwng swyddogaethau, yn amrywio yn dibynnu ar ystod o ffactorau. Cewch wybodaeth fanylach yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon.


Mae ein cynllun strategol ar gyfer 2015 hyd 2018 yn disgrifio'n glir ein barn ynglŷn â sut y gall rheoleiddio ddiogelu cleifion orau a chyfrannu at welliant mewn gwasanaethau fferyllol. Mae'r cynllun yn cydnabod ein cynigion ein hunain i barhau i foderneiddio rheoleiddiad fferylliaeth, a hefyd rôl newidiol a chynyddol fferylliaeth fel y cynigir gan lywodraethau ar draws Prydain Fawr. Mae'r cynllun yn golygu bod angen i ni ddatblygu'r modd yr ydym yn rheoleiddio gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ogystal â sut yr ydym yn rheoleiddio gwasanaethau o adeiladau fferylliaeth cofrestredig. Mae'r cynllun hefyd yn gosod y cyfeiriad ar gyfer y sefydliad, ac yn arwain ein hymagwedd tuag at ddatblygu polisi ar gyfer pob un o'n swyddogaethau - o osod safonau i arolygu a chymhwyster i ymarfer.

Mae'r meysydd allweddol ar gyfer y deuddeg i ddeunaw mis nesaf yn cynnwys:


- adolygu'r safonau ymddygiad, moesegau a pherfformiad a diweddarau ein safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig
- adolygu safonau addysg ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol
- datblygu model a fydd, mewn modd cymesur, yn caniatáu i ni asesu cymhwyster cofrestredigion i ymarfer
- gwreiddio, a pharhau i fireinio, ein hymagwedd newydd tuag at arolygaeth
- gwella sut yr ydym yn delio â'n hachosion cymhwyster i ymarfer, a pha mor gyflym yr ydym yn delio â hwy
- gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws y CFfC

Mae ein cyngor yn gwneud ei benderfyniadau ynglŷn â chyllideb y sefydliad mewn sesiwn agored, a gallwch weld gwybodaeth ariannol fanwl ar wefan y CFfC. Fodd bynnag, mae'r siartiau cryno a welir isod yn dangos sut y gwneir cyfanswm incwm y CFfC. Maent yn dangos y cyfraniadau gan wahanol grwpiau, a sut mae'r sefydliad yn gwario'r incwm hwn ar wahanol swyddogaethau rheoleiddio a chefnogi.

Gwariant cyllideb 2015/16



Dadansoddiad incwm 2015/16



6. Sut ydym yn pennu ein ffioedd arfaethedig

Mae'r lefelau ffi arfaethedig yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- yr heriau sy'n wynebu'r sefydliad
- y gwaith sydd wedi ei gynllunio ac a ddisgwylir gennym
- yr angen am fuddsoddiad parhaus mewn datblygu ein systemau a'n gwasanaethau, ac mewn rheoli ein cronfeydd ariannol wrth gefn yn unol â'n polisi

O ystyried y gwaith sydd ei angen i gyflawni ein hamcanion a rheoli ein llwyth gwaith, credwn fod cynnydd mewn ffioedd yn angenrheidiol.

Wrth bennu ffioedd rydym wedi ystyried sut y dylid talu am gostau rheoleiddio yn gymesur gan fferyllwyr, technegwyr fferyllol a pherchnogion fferyllfeydd. Ein nod yw gwneud yn siŵr bod lefelau'r ffioedd yn adlewyrchu cyn agosod â phosibl gostau rheoleiddio pob un o'r grwpiau hyn.

Er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni'r nod hwn, rydym wedi cynnal adolygiad ffioedd a dyraniad costau. Fe'n cefnogwyd gyda hyn gan arbenigwr allanol: Yr Athro Barry McCormack, cyfarwyddwr gwreiddiol y Centre for Health Services Economics and Organisation (CHSEO) sydd wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Rhydychen.

Fodd bynnag, os ydym am ddyrannu costau yn y modd hwn mae angen i ni gael dealltwriaeth fanwl a dofn o ba weithgareddau yr ydym yn eu cyflawni, a pham. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn, a'n nod yw gwella'n barhaus ein dealltwriaeth o hyn.

Mae gan unrhyw reoleiddiwr rai costau sefydlog sydd heb eu cysylltu'n uniongyrchol i nifer y cofrestredigion. Felly mae cyfyngiadau i'r dull yr ydym wedi ei ddewis ar gyfer pennu'r ffioedd arfaethedig. Fodd bynnag, credwn mai dyrannu'r costau hyn yn gyfartal ar draws yr holl gofnodion ar y gofrestr yw'r ffordd fwyaf priodol o wneud hyn. Rydym eisiau osgoi newidiadau dramatig mewn ffioedd mewn unrhyw flwyddyn unigol, ac edrych ar y sefyllfa yn yr hirdymor. Bydd hyn yn osgoi unrhyw faich diangen ar gofrestrredigion yn y blynyddoedd i ddod. Nid ydym felly yn bwriadu addasu'r ffioedd ar unwaith i adlewyrchu'n llawn ganlyniadau'r ymarferiad dyraniad ffioedd a chostau. Yn hytrach byddwn yn parhau i adolygu ein strategaeth ffioedd i adlewyrchu ein gweithgareddau wrth i ni barhau i ddatblygu.

Mae'r gwahanol gynnydd mewn ffioedd - ar draws grwpiau ac adeiladau cofrestredig - yn ganlyniad i'r gwaith cychwynnol hwn. Gall y cydbwysedd rhwng y ffioedd hyn newid yn y dyfodol a byddwn yn parhau i gadw llygad ar batrymau wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Gallwch weld manylion llawn y gyllideb a'r broses pennu cyllideb ar gyfer 2015/16 ym [mhapurau Chwefror 2015 y cyngor](#), sydd ar gael ar ein [gwefan](#). Rydym yn annog unrhyw un sydd eisiau ystyried ein hymagwedd, ein tybiaethau a'n methodoleg mewn rhagor o fanylder i ddarllen y papur hwn.

Ein hamcan yw ‘mantoli’r gyllideb’ erbyn 2017/18 (hynny yw, erbyn hynny ni fyddwn yn gwario mwy yn ystod y flwyddyn na’r incwm a ragamcanwyd gennym ynddi). Rydym hefyd wedi ymrwymo i leihau costau lle bo hynny’n bosibl. Er mwyn ein cynorthwyo i weld lle gellir gwneud mwy o arbedion effeithlonrwydd byddwn yn cynnal adolygiad effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cynhwysfawr yn 2015.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rheoleiddwyr eraill er mwyn canfod lle gallwn leihau neu rannu costau wrth gyflawni ein gwaith gweithredol, a hefyd mewn meysydd eraill megis datblygu polisi ac ymgysylltu. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd yn hyn o beth drwy rentu ein gofod gwrandawriad cymhwyster i ymarfer. Bydd hyn yn creu incwm yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Er bod y cynnydd gwirioneddol yn fach o ran swm yr arian, credwn ei bod yn bwysig pwysleisio - er mwyn tryloywder - bod y cynnydd canrannol ar gyfer technegwyr fferyllol (ychydig dros 9 y cant) yn uwch na’r cynnydd ar gyfer fferyllwyr (ychydig dros 4 y cant). Credwn fod y cynnydd hwn yn briodol. Mae’n unol â’r egwyddorion yr ydym wedi eu nodi ar gyfer sefydlu ffioedd, yn cynnwys ein gwaith i wneud yn siŵr bod y ffioedd yn adlewyrchu cost waelodol rheoleiddio pob grŵp o gofrestradigion. Bydd hefyd yn ein cynorthwyo i gyflawni ein hymrwymiad i osgoi, os yn bosibl, newidiadau sylweddol mewn ffioedd yn y dyfodol.

Credwn hefyd ei bod yn briodol, ar ôl ystyried yr ymarferiad dyrannu ffioedd a chostau, bod y cynnydd ffi uchaf ar gyfer eiddo fferyllol. Wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer ffioedd rydym hefyd wedi ystyried a oedd lefelau’r ffioedd yr ydym yn eu cynnig, a’r cynnydd canrannol yr ydym yn eu cynnig, yn briodol o gofio’r sefyllfa economaidd ehangach.

Ein barn ni yw mai ‘ydy’ yw’r ateb yn y ddau achos, o ystyried maint bychan y symiau dan sylw

o gymharu â chyd-destun y rôl ehangach y mae fferylliaeth ac aelodau timau fferyllol yn ei chwarae o ran iechyd a lles, a gan ystyried y ffactorau eraill a nodir yn ein cynllun strategol.

Mae’r cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt yn unol â’n polisi ffioedd (gweler atodiad 2).

Rydym yn codi ffioedd ar wahân ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

craffu

Ffi yw hon am benderfynu beth yw cymwysterau a phrofiad rhywun sy’n gwneud cais i gofrestru

ymgeisio

Ffi yw hon am brosesu cais. Bydd yn cwmpasu ystod o gostau yn dibynnu ar a yw’r cais ar gyfer gweithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa gofrestradig

anodi’r gofrestr

Ffi yw hon i anodi cofnod ar y gofrestr am y tro cyntaf er mwyn dangos arbenigedd, er enghraifft cymhwyster fel presgripsiynydd annibynnol

adfer cofnod ar y gofrestr

Ffi yw hon i ail-gofnodi enw, anodiad neu fferyllfa gofrestradig ar y gofrestr ar ôl eu tynnu oddi arni

gwneud cofnod cyntaf ar y gofrestr

Ffi yw hon i roi enw neu fferyllfa gofrestradig ar y gofrestr am y tro cyntaf. Mae’n cwmpasu cyfnod cychwynnol cofrestradig ac yn cyfrannu at gostau rheoleiddio

adnewyddu cofnod ar y gofrestr

Ffi yw hon i gadw enw neu fferyllfa gofrestradig ar y gofrestr am 12 mis arall ac mae’n cyfrannu at gostau rheoleiddio.

Mae’r rheolau ffioedd 2015 drafft yn Atodiad 1. Dangosir y ffioedd arfaethedig yn llawn yn adran 8.

7. Newidiadau i gategorïau ffioedd ar gyfer ceisiadau ac anodiadau

Fffioedd cais

Mae ein rheolau presennol yn nodi dwy set wahanol o ffioedd cais ar gyfer cofnod ar y gofrestr fel fferylllydd. Y rhain yw'r ffi safonol, a'r ffi sy'n daladwy os tynnwyd rhywun oddi ar y gofrestr gan bwyllgor cymhwyster i ymarfer RPSGB ac sydd erioed wedi bod ar gofrestr y CFfC ('person perthnasol').

Yn ein rheolau ffioedd newydd, rydym yn cynnig cynnwys mwy o gategorïau ffioedd cais. Er mai'r un yw'r ffi ar gyfer pob un o'r categorïau newydd, mae'n rhoi'r hyblygrwydd i ni gael gwahanol ffioedd yn y dyfodol. Golyga hyn y gallem ystyried yn well y gwahanol gostau sy'n gysylltiedig ag asesu gwahanol fathau o geisiadau. Defnyddiom y dull hwn yn 2012 pan gyflwynom ystod o ffioedd adfer ar gyfer pobl a oedd yn ail-ymuno â'r gofrestr ar ôl cymryd seibiant o hyd at flwyddyn.

Mae'r rheolau ffioedd 2015 arfaethedig yn cynnwys y categorïau canlynol o ffioedd cais ar gyfer fferyllwyr:

- ffi cais safonol
- ffi cais ar gyfer rhywun sydd wedi'i dynnu oddi ar gofrestr RPSGB ('person perthnasol')
- ffi cais yn dilyn tynnu'n wirfoddol oddi ar y gofrestr
- ffi cais yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr o ganlyniad i: gofnod twyllodrus neu anghywir, materion cymhwyster i ymarfer cyn cofnod neu adnewyddiad, methu â chydymffurfio â gofynion indemniad neu fethu â chydymffurfio â gofynion DPP
- ffi cais yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr am unrhyw reswm arall, megis methu â gwneud cais i adnewyddu, methu â thalu'r ffi ofynnol, neu fethu â'n hysbysu ynglŷn â newid cyfeiriad

Rydym yn cynnig dull tebyg ar gyfer y mathau hyn o geisiadau gan dechnegwyr fferyllol.

Ffioedd cofrestru eiddo

Rydym hefyd yn cynnig mwy o gategorïau ar gyfer ffioedd sy'n cwmpasu cofrestriad gan fferyllfeydd. Byddai hyn yn caniatáu i ni godi gwahanol ffioedd mewn amgylchiadau gwahanol, er enghraifft:

- yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr oherwydd na adnewyddwyd y cofnod
- yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol
- yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr gan y pwyllgor cymhwyster i ymarfer
- yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr am ddiffyg cydymffurfiad â rhybudd gwella
- yn dilyn tynnu cofnod twyllodrus neu anghywir oddi ar y gofrestr

Unwaith eto, nid ydym yn cynnig pennu gwahanol symiau ar gyfer ffioedd ym mhob un o'r categorïau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai'r strwythur yn caniatáu ar gyfer hyn yn y dyfodol, er mwyn adlewyrchu'n well gostau rheoleiddio.

Ffioedd anodi

Ar hyn o bryd mae gennym un ffi cais ar gyfer ychwanegu anodiad ar gofnod fferyllfydd yn y gofrestr. Yn y rheolau ffioedd 2015 drafft, rydym wedi cynnig ffi ar wahân ar gyfer cais am anodiad sydd yn flaenrol wedi ei dynnu oddi ar y gofrestr, er enghraifft oherwydd diffyg cydymffurfiad â gofynion DPP. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddir yn y rheolau ffioedd presennol ar gyfer ffioedd am gais i adfer anodiad.

8. Ein ffioedd arfaethedig yn llawn

Rhan 1 y gofrestr (fferyllwyr)

Ffi	Ffi o fis Hydref 2012	Ffi arfaethedig o fis Hydref 2015
Cais am gofnod cychwynnol ar y gofrestr	£102	£106
Cais am gofnod cychwynnol ar gyfer person a oedd yn flaenorol wedi ei dynnu oddi ar gofrestr RPSGB gan bwyllgor disgyblu	£413	£429
Cofnod cychwynnol ar y gofrestr	£240	£250
Cofnod cychwynnol ar gyfer person a oedd yn flaenorol wedi ei dynnu oddi ar gofrestr RPSGB gan bwyllgor disgyblu	£240	£250
Cais am gofnod cychwynnol anodiad ar y gofrestr	£55	£57
Adnewyddu cofnod	£240	£250
Cais am dynnu gwirfoddol oddi ar y gofrestr	£0	£0
Cais am dynnu gwirfoddol anodiad oddi ar y gofrestr	£0	£0
Cais am adfer ar y gofrestr (hynny yw, o fewn blwyddyn o adael y gofrestr):	-	-
• yn dilyn tynnu oddi arni'n wirfoddol, neu	£138	£144
• os yw'r cais o fewn 1 mis o ddyddiad tynnu gwirfoddol oddi ar y gofrestr	£384	£399
• yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr: <ul style="list-style-type: none"> – am fethu â bodloni gofynion DPP (erthygl 37(1)(g)) – am fethu â bod â threfniadau indemniad priodol (erthygl 37(1)(f)) – am gofnod twyllodrus neu anghywir (erthygl 37(1)(c)), ac eithrio cofnodion anghywir a dynnwyd am fethu â thalu'r cyfan neu ran o ffi, neu – am faterion cymhwyster i ymarfer cyn cofrestru neu adnewyddu (erthygl 37(1)(d)) 	£551	£573
• yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr am unrhyw reswm arall - er enghraifft, peidio ag adnewyddu cofrestrriad neu beidio â thalu ffioedd (erthygl 37(1)(a)); cofnodion anghywir a dynnwyd oddi ar y gofrestr oherwydd methiant i dalu'r cyfan neu ran o ffi (erthygl 37(1)(c)), neu am beidio ein hysbysu ynglŷn â newid cyfeiriad (erthygl 37(1)(b))	£384	£399

Rhan 1 y gofrestr (fferyllwyr) parhad

Ffi	Ffi o fis Hydref 2012	Ffi arfaethedig o fis Hydref 2015
Cais am i adfer i'r gofrestr ar ôl tynnu oddi arni gan y pwyllgor cymhwyster i ymarfer	£551	£573
Adfer cofnod ar y gofrestr	£102	£106
Cais am ail-gofnodi ar y gofrestr (wedi absenoldeb o fwy na blwyddyn am unrhyw reswm heblaw am dynnu oddi arni gan y pwyllgor cymhwyster i ymarfer):	-	-
<ul style="list-style-type: none"> yn dilyn tynnu'n wirfoddol oddi ar y gofrestr 	£138	£144
<ul style="list-style-type: none"> yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr: <ul style="list-style-type: none"> am fethu â bodloni gofynion DPP (erthygl 37(1)(g)) am fethu â bod â threfniadau indemniad priodol (erthygl 37(1)(f)) am gofnod twyllodrus neu anghywir (erthygl 37(1)(c)), ac eithrio cofnodion anghywir a dynnwyd am fethu â thalu'r cyfan neu ran o ffi, neu am faterion cymhwyster i ymarfer cyn cofrestru neu adnewyddu (erthygl 37(1)(d)) 	£551	£573
<ul style="list-style-type: none"> yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr am unrhyw reswm arall - er enghraifft, peidio ag adnewyddu cofrestrriad neu beidio â thalu ffioedd (erthygl 37(1)(a)); cofnodion anghywir a dynnwyd oddi ar y gofrestr oherwydd methiant i dalu'r cyfan neu ran o ffi (erthygl 37(1)(c)), neu am beidio ein hysbysu ynglŷn â newid cyfeiriad (erthygl 37(1)(b)) 	£384	£399
Ail-gofnodi ar y gofrestr	£102	£106
Cais i adfer neu ail-gofnodi ar y gofrestr:	-	-
<ul style="list-style-type: none"> yn dilyn tynnu'n wirfoddol oddi ar y gofrestr 	£55	£57
<ul style="list-style-type: none"> yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr am fethu â bodloni gofynion DPP (erthygl 37(1)(c)) 	£184	£191
<ul style="list-style-type: none"> yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr am unrhyw reswm arall, er enghraifft peidio ag adnewyddu 	£184	£191
Ailosod hysbysiad o gofnod ar y gofrestr	£15	£15
Tystysgrif enw da o statws proffesiynol presennol	£78	£81
Ailbrosesu taliad na lwyddodd	£20	£20
Prosesu cais am gofnod ar y gofrestr sydd wedi ei ddychwelyd fwy nag unwaith er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol	£47	£48

Rhan 1 y gofrestr (fferyllwyr) parhad

Ffi	Ffi o fis Hydref 2012	Ffi arfaethedig o fis Hydref 2015
Ffi ar gyfer Debydau Uniongyrchol chwarterol	£15	£15
Ffi ar gyfer taliad cerdyn credyd (am unrhyw ffi)	2% o'r ffi berthnasol	2% o'r ffi berthnasol
Craffu cychwynnol ar unrhyw gais am gofnod ar y gofrestr er mwyn penderfynu a yw person esempt wedi cymhwyso'n briodol o dan erthygl 21(1)(b)	£105	£109
Asesu a yw person esempt wedi cymhwyso'n briodol o dan erthygl 21(1 (c) neu 21(1)(d)(ii)(aa)	£376	£391

Rhan 2 y gofrestr (technegwyr fferyllol)

Ffi	Ffi o fis Hydref 2012	Ffi arfaethedig o fis Hydref 2015
Cais am gofnod cychwynnol ar y gofrestr	£102	£106
Cais am gofnod cychwynnol ar gyfer person a oedd yn flaenorol wedi ei dynnu oddi ar gofrestr RPSGB gan bwyllgor disgyblu	£283	£294
Cofnod cychwynnol ar y gofrestr	£108	£118
Cofnod cychwynnol ar gyfer person a oedd yn flaenorol wedi ei dynnu oddi ar gofrestr RPSGB gan bwyllgor disgyblu	£108	£118
Adnewyddu cofnod	£108	£118
Cais am dynnu gwirfoddol oddi ar y gofrestr	£0	£0
Cais am adfer ar y gofrestr (hynny yw, o fewn blwyddyn o adael y gofrestr):	-	-
• yn dilyn tynnu oddi arni'n wirfoddol, neu	£6	£12
• os yw'r cais o fewn 1 mis o ddyddiad tynnu gwirfoddol oddi ar y gofrestr	£195	£202
• yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr: <ul style="list-style-type: none"> – am fethu â bodloni gofynion DPP (erthygl 37(1)(g)) – am fethu â bod â threfniadau indemniad priodol (erthygl 37(1)(f)) – am gofnod twyllodrus neu anghywir (erthygl 37(1)(c)), ac eithrio cofnodion anghywir a dynnwyd am fethu â thalu'r cyfan neu ran o ffi, neu – am faterion cymhwyster i ymarfer cyn cofrestru neu adnewyddu (erthygl 37(1)(d)) 	£290	£301
• yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr am unrhyw reswm arall - er enghraifft, peidio ag adnewyddu cofrestrriad neu beidio â thalu ffioedd (erthygl 37(1)(a)); cofnodion anghywir a dynnwyd oddi ar y gofrestr oherwydd methiant i dalu'r cyfan neu ran o ffi (erthygl 37(1)(c)), neu am beidio ein hysbysu ynglŷn â newid cyfeiriad (erthygl 37(1)(b))	£195	£202
Cais am adfer ar y gofrestr yn dilyn tynnu oddi arni gan y pwyllgor cymhwyster i ymarfer (erthygl 57)	£290	£301
Adfer cofnod ar y gofrestr	£102	£106

Rhan 2 y gofrestr (technegwyr fferyllol) parhad

Ffi	Ffi o fis Hydref 2012	Ffi arfaethedig o fis Hydref 2015
Cais am ail-gofnodi ar y gofrestr (wedi absenoldeb o fwy na blwyddyn am unrhyw reswm heblaw am dynnu oddi arni gan y pwyllgor cymhwyster i ymarfer):	-	-
• yn dilyn tynnu'n wirfoddol oddi ar y gofrestr	£6	£12
• yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr: <ul style="list-style-type: none"> - am fethu â bodloni gofynion DPP (erthygl 37(1)(g)) - am fethu â bod â threfniadau indemniad priodol (erthygl 37(1)(f)) - am gofnod twyllodrus neu anghywir (erthygl 37(1)(c)), ac eithrio cofnodion anghywir a dynnwyd am fethu â thalu'r cyfan neu ran o ffi, neu - am faterion cymhwyster i ymarfer cyn cofrestru neu adnewyddu (erthygl 37(1)(d)) 	£290	£301
• yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr am unrhyw reswm arall - er enghraifft, peidio ag adnewyddu cofrestrriad neu beidio â thalu ffioedd (erthygl 37(1)(a)); cofnodion anghywir a dynnwyd oddi ar y gofrestr oherwydd methiant i dalu'r cyfan neu ran o ffi (erthygl 37(1)(c)), neu am beidio ein hysbysu ynglŷn â newid cyfeiriad (erthygl 37(1)(b))	£195	£202
Ail-gofnodi ar y gofrestr	£102	£106
Ailosod hysbysiad o gofnod ar y gofrestr	Fel yn Rhan 1	Fel yn Rhan 1
Tystysgrif enw da o statws proffesiynol presennol	Fel yn Rhan 1	Fel yn Rhan 1
Ailbrosesu taliad na lwyddodd	Fel yn Rhan 1	Fel yn Rhan 1
Prosesu cais am gofnod ar y gofrestr sydd wedi ei ddychwelyd fwy nag unwaith er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol	Fel yn Rhan 1	Fel yn Rhan 1
Ffi ar gyfer Debydau Uniongyrchol chwarterol	Fel yn Rhan 1	Fel yn Rhan 1
Ffi ar gyfer taliad cerdyn credyd am unrhyw ffi	Fel yn Rhan 1	Fel yn Rhan 1
Craffu cychwynnol cais esempt neu EEA	£194	£201
Craffu cychwynnol cais tramor heb esempt	£44	£45

Rhan 3 y gofrestr (eiddo)

Ffi	Ffi o fis Hydref 2012	Ffi arfaethedig o fis Hydref 2015
Cais am gofnod ar y gofrestr	£568	£590
Cais i ail-gofnodi ar y gofrestr (ar ôl absenoldeb am fwy na blwyddyn), a phan dynnwyd y cofnod blaenorol oddi ar y gofrestr a'r sawl sy'n gwneud cais oed perchennog yr eiddo pan dynnwyd y cofnod:	-	-
• yn dilyn tynnu gwirfoddol oddi ar y gofrestr (adran 74G)	£119	£135
• yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr o dan adran 74A(7) (cofnod ddim yn ddilys mwyach)	£687	£714
• yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr gan y pwyllgor cymhwyster i ymarfer (adran 80)	£687	£714
• yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr am fethu â chydymffurfio â rhybudd gwella (erthygl 14(4)(a))	£687	£714
• yn dilyn tynnu cofnod twyllodrus neu anghywir oddi ar y gofrestr (erthygl 29(3)(b))	£687	£714
• yn dilyn tynnu oddi ar y gofrestr am unrhyw reswm arall, er enghraifft peidio â thalu ffi	£568	£590
Cofnod cychwynnol ar y gofrestr	£221	£241
Cais am anodiad yn y gofrestr (pwysig: nid oes anodiadau ar gael hyd yma)	Fel yn Rhan 1	Fel yn Rhan 1
Adnewyddu cofnod	£221	£241
Cais am dynnu gwirfoddol oddi ar y gofrestr	£0	£0
Cais am dynnu anodiad yn wirfoddol oddi ar y gofrestr	£0	£0
Cais i adfer ar y gofrestr:	-	-
• yn dilyn tynnu gwirfoddol oddi ar y gofrestr (adran 74G)	£119	£135
• dan erthygl 37(2)(a) y Gorchymyn (methiant i gydymffurfio â rhybudd gwella); neu dan 74C(1) (cofnod ddim yn ddilys mwyach) neu adran 74I(1) (cofnod ddim yn ddilys mwyach yn dilyn newuid perchnogaeth) y Ddeddf	£687	£714

Rhan 3 y gofrestr (eiddo) parhad

Ffi	Ffi o fis Hydref 2012	Ffi arfaethedig o fis Hydref 2015
Adfer cofnod ar y gofrestr	£102	£106
Cais am adfer anodiad ar y gofrestr yn dilyn tynnu gwirfoddol oddi arni (pwysig: nid oes anodiadau ar gael hyd yma)	Fel yn Rhan 1 (adfer ar ôl tynnu gwirfoddol)	Fel yn Rhan 1 (adfer ar ôl tynnu gwirfoddol)
Ailbrosesu taliad na lwyddodd	Fel yn Rhan 1	Fel yn Rhan 1
Prosesu cais am gofnod ar y gofrestr sydd wedi ei ddychwelyd fwy nag unwaith er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol	Fel yn Rhan 1	Fel yn Rhan 1
Ffi ar gyfer taliad cerdyn credyd am unrhyw ffi	Fel yn Rhan 1	Fel yn Rhan 1
Newid perchnogaeth	£76	£79

9. Sut mae ein ffioedd adnewyddu arfaethedig yn cymharu gyda rhai rheoleiddwyr eraill

Mae'r tabl isod yn dangos ein ffioedd adnewyddu arfaethedig a'r ffioedd adnewyddu a godir gan yr wyth rheoleiddiwr iechyd arall yn y DU (yn seiliedig ar y wybodaeth fwyaf diweddar oedd ar gael ym mis Chwefror 2015). Rydym hefyd yn dangos ffi y mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn ei phennu ar gyfer eiddo er mwyn gallu cymharu.

Rheoleiddiwr	Proffesiwn/iynau	Nifer cofrestredigion yn	Ffi adnewyddu
Comisiwn Ansawdd Gofal	GIG	4,398 (eiddo)	Enghraifft. 600 fesul cadair ddeintyddol
Cyngor Ceiropracteg	ceiropractyddion	2,808	800 (yn ymarfer)
Cyngor Deintyddol Cyffredinol	deintyddion	40,423	890 116 arbenigwr (fesul arbenigedd)
	Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol	63, 027	120
Cyngor Meddygol Cyffredinol	ymarferwyr meddygol	270,000	420 (o fis Ebrill 2015)
Cyngor Optegol Cyffredinol	Optometryddion ac optegwyr cymwysedig	12,761	310
Cyngor Osteopathig Cyffredinol	osteopathiaid	4,816	320-570 (amrywio gyda blynyddoedd o brofiad)
Cyngor Fferyllol Cyffredinol (ffi a argymhellir)	fferyllwyr	48,814	250
	technegwyr fferyllol	22,406	118
	eiddo fferyllol	14,306	241
Cyngor Proffesiynau	pob grŵp cofrestredig HCPC	320,552	80
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	nyrsys a bydwragedd	673,567	120
Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon	fferyllwyr	2,155	395 (ffi broffesiynol a rheoleiddiol ar y cyd)

10. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Dyma restr o gwestiynau'r ymgynghoriad. Gallwch weld sut i roi eich barn ar y rhain yn yr adran *Sut i ymateb*.

1. Wrth gyfrifo'r ffioedd arfaethedig, cynhaliodd y CFfC adolygiad i wneud yn siŵr bod costau rheoleiddio yn cael eu talu'n fwy cymesur gan fferyllwyr, technegwyr fferyllol ac eiddo fferyllol. A ydych chi'n cytuno gyda'r dull hwn?
2. A ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i gynyddu'r ffi adnewyddu ar gyfer fferyllwyr gan £10, o £240 i £250?
3. A ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i gynyddu'r ffi adnewyddu ar gyfer technegwyr fferyllol gan £10, o £108 i £118?
4. A ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i gynyddu'r ffi adnewyddu ar gyfer eiddo fferyllol gan £20, o £221 i £241?
5. A ydych chi'n cytuno bod ein hargymhellion yn unol â'n polisi ffioedd?
6. A ydych chi'n cytuno gyda'n cynnigion i newid y categorïau 'cais am gofnod' ac 'anodiadau'?
7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

Atodiad 1: rheolau ffioedd drafft

Mae'r Gorchymyn Fferyllol 2010 yn caniatáu i'r CFFC lunio rheolau ynglŷn â ffioedd mewn perthynas â chofnod person neu eiddo ar y Gofrestr. Cyfeirir yn aml at y rheolau hyn fel y "rheolau ffioedd".

The General Pharmaceutical Council (Registration and Renewal Fees) Rules 2015

Contents

PART 1

General

1. Citation and commencement
2. Interpretation
3. Revocation

PART 2

Registered Pharmacists

Fees in respect of Register entries or annotations

4. Application for entry in Part 1 of the Register
5. Entry in Part 1 of the Register following grant of an application
6. Determining certain qualifications and experience
7. Application for an annotation to an entry in Part 1 of the Register
8. Voluntary removal of an entry or an annotation from Part 1 of the Register

Fees in respect of renewal of Register entries

9. Renewal of an entry in Part 1 of the Register

Fees in respect of restoration of Register entries or annotations

10. Application to restore an entry to Part 1 of the Register
11. Restoring an entry to Part 1 of the Register following grant of an application
12. Restoring an annotation to an entry in Part 1 of the Register

Other fees

13. Notices and certificates
14. Administration

PART 3

Registered Pharmacy Technicians

Fees in respect of Register entries

15. Application for entry in Part 2 of the Register
16. Entry in Part 2 of the Register following grant of an application
17. Determining certain qualifications and experience
18. Voluntary removal of an entry from Part 2 of the Register

Fees in respect of renewal of Register entries

19. Renewal of an entry in Part 2 of the Register Fees in respect of restoration of Register entries
20. Application to restore an entry to Part 2 of the Register
21. Restoring an entry to Part 2 of the Register following grant of an application

Other fees

22. Notices and certificates
23. Administration

PART 4

Premises

Fees in respect of Register entries or annotations

24. Application for entry in Part 3 of the Register
25. Application for entry in Part 3 of the Register following removal of previous entry
26. Entry in Part 3 of the Register following the grant of an application
27. Application for an annotation to an entry in Part 3 of the Register
28. Voluntary removal of an entry or an annotation from Part 3 of the Register

Fees in respect of renewal of Register entries

- 29.** Renewal of an entry in Part 3 of the Register Fees in respect of restoration of Register entries or annotations
- 30.** Application to restore an entry to Part 3 of the Register
- 31.** Restoring an entry to Part 3 of the Register following grant of an application
- 32.** Restoring an annotation to an entry in Part 3 of the Register

Other fees

33. Administration

The General Pharmaceutical Council has made these Rules in exercise of the powers conferred by articles 36(1) and 66(1) of the Pharmacy Order 2010⁽²⁾.

In accordance with article 66(3) of that Order, the General Pharmaceutical Council has consulted such persons and organisations as it considered appropriate including the persons and organisations listed in sub-paragraphs (a) to (d) of article 36(6) and in sub-paragraphs (a) to (h) of article 66(3) of that that Order⁽³⁾.

² S.I. 2010/231.

³ iwyd erthygl 66(3)(a) gan S.I. 2013/235.

PART 1

General

Citation and commencement

1. (1) These Rules may be cited as the General Pharmaceutical Council (Registration and Renewal Fees) Rules 2015.
- (2) These Rules come into force on [date].

Interpretation

2. (1) In these Rules—
 - “the Act” means the Medicines Act 1968; “certificate” means a certificate of good standing or current professional status which is issued by the Council in respect of a person and which contains the information referred to in rule 10(6)(a) to (f) of the Registration Rules; “credit card” means a card—
 - (a) which is a credit-token falling within section 14(1)(b) of the Consumer Credit Act 1974⁴; or
 - (b) which would be a credit-token falling within that enactment were that card to be given to an individual;
 - “former registrant” has the meaning given in paragraph (2);
 - “the Order” means the Pharmacy Order 2010;
 - “Registration Rules” means the rules contained in the Schedule to the General Pharmaceutical Council (Registration Rules) Order of Council 2010⁵;
 - “relevant person” has the meaning given in paragraph (3).
- (2) For the purposes of these Rules, a person is a “former registrant” if—
 - (a) the person is no longer entered in Part 1 or 2 of the Register; and
